



Canllawiau Statudol: Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol



Cyflwyniad

1. Mae Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (Deddf PGChC) yn disgrifio'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol y mae ei hystyr yn deillio o [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) (Deddf LICD), drwy gyfeirio at ddatblygu cynaliadwy. Caiff hyn ei ddiffinio fel y broses o **wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol** drwy gymryd camau, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, wedi'u hanelu at gyflawni'r nodau llesiant. Yr egwyddor datblygu cynaliadwy, y mae pum ffordd o weithio DLICD yn tynnu¹ arni, yw "sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau".
2. Mae adran 24 o Ddeddf PGChC yn cyflwyno'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol fel a ganlyn: rhaid i Awdurdod Contractio **"geisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal ²drwy gynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol."**
3. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i'r holl **gaffael cyhoeddus** fel y'i diffinnir yn y Ddeddf PGChC, ac nid oes eithriadau ar gyfer contractau llai.

Ymadrodd	Ystyr
caffael cyhoeddus <i>("public procurement")</i>	Deddf PGChC a.23 At ddibenion y Rhan hon, mae cyfeiriadau at "caffael cyhoeddus" yn gyfeiriadau at Awdurdod Contractio— (a) yn cynllunio ac yn cyflawni unrhyw weithdrefn cyn dyfarnu contract cyhoeddus gan gynnwys, yn benodol, wahodd ceisiadau a dethol gweithredwyr economaidd; (b) yn drafftio, yn negodi ac yn dyfarnu contract cyhoeddus; (c) yn rheoli contract cyhoeddus ar ôl ei ddyfarnu; ac mae cyfeiriadau at "caffael" i'w dehongli yn unol â hynny.

¹ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015: yr hanfodion | LLYW.CYMRU](#)

² Gweler paragraffau 9 a 10 am ganllawiau ar sut mae nod Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang yn berthnasol yn y cyd-destun hwn.



4. Felly, mae angen i Awdurdodau Contractio ystyried **llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol** a gweithredu'r pum ffordd o weithio wrth osod amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol (Amcanion CCG) sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni'r saith nod llesiant. Dylai'r Amcanion Caffael Cymdeithasol Gyfrifol hyn lywio'r holl weithgareddau caffael. Gweler (Canllawiau Statudol – Gosod a Chyflawni Amcanion CCG) am ragor o fanylion am osod amcanion
5. Rhaid i Awdurdod Contractio hefyd gymryd pob cam rhesymol i gyflawni ei Amcanion Caffael Cymdeithasol Gyfrifol mewn perthynas â **chontractau rhagnodedig** a chymryd camau penodol pellach mewn perthynas â **chontractau adeiladu mawr a chontractau allanoli gwasanaethau** (gweler isod am fanylion Contractau Rhagnodedig a Chamau Gweithredu Penodol ar gyfer Contractau Adeiladu Mawr a Chontractau Allanoli Gwasanaethau).

Llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol

6. Mae'r Ddeddf PGChC hon yn dilyn Deddf LICD, gan ei bod yn hytrach na diffinio llesiant **economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol**, mae'n esbonio pa gamau sydd eu hangen i'w cyflawni – h.y. trwy fynd ar drywydd y saith nod llesiant a gweithredu'r pum ffordd o weithio. Mae hyn yn gofyn am ystyried sut y gallai gwario arian mewn ffordd benodol i wneud y canlynol:
 - lleihau'r risgiau o niwed i lesiant, a
 - sicrhau gwelliannau llesiant i bobl a chymunedau, gan gynnwys cynyddu ffyniant, diogelu a gwella'r amgylchedd, hyrwyddo diwylliant ac amrywiaeth, a bod yn gyfrifol yn fyd-eang.
7. Mae'r Ddeddf PGChC yn glir mai prif gwmpas daearyddol y gwelliannau llesiant a geisir yw “ardal” yr Awdurdod Contractio (adran 24(1)). Disgrifir hyn ymhellach yn adran 22(3) fel yr ardal lle mae'r awdurdod “yn arfer ei swyddogaethau ynddi yn bennaf”. Felly, i rai Awdurdodau Contractio Cymru gyfan yw hon, ac i eraill, er enghraifft byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, mae'n ardal lai. Gall mabwysiadu dull seiliedig ar le neu gymuned ar gyfer y nodau llesiant helpu i ddeall lle mae'r cyfleoedd a lle mae amcanion neu gamau gweithredu llesiant yn canolbwyntio ar gymuned benodol. Bydd gan bob lle/cymuned agweddau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gwahanol sy'n cael eu cofnodi trwy'r nodau llesiant.



8. Fodd bynnag, wrth i'n cadwyni cyflenwi symud i ffwrdd o'n hardaloedd cyfagos, ar draws Cymru, a ledled y byd, gellir teimlo effeithiau ein gweithgarwch caffael dros ardal llawer ehangach. Gallai'r effeithiau hyn, yn eu tro, gael effaith sylweddol ar lesiant Cymru yn y dyfodol. Er enghraifft, gallai penderfyniad sy'n lleihau problemau amgylcheddol a chymdeithasol yn lleol trwy eu hadleoli gyfrannu at newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth, cam-drin hawliau dynol, neu ehangu anghydraddoldeb ac ansefydlogrwydd byd-eang, y bydd pawb yn teimlo ei effeithiau yn y pen draw.
9. Mae'r nod "Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang" yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio ystyried effaith fyd-eang eu gwaith caffael ac wrth "wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, mae [sefydliad] yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang." Mae'n ddefnyddiol meddwl am gyfrifoldeb byd-eang fel rhwymedigaeth ynddo'i hun. Mae'n bwysig defnyddio Egwyddorion Arweiniol y Cenhedloedd Unedig ar Fusnes a Hawliau Dynol fel fframwaith ar gyfer hyn³.

Yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio

	Integreiddio		Cydweithio
	Atal		Hirdymor
		Cynnwys	

10. Rhaid i Ddeddf PGChC yn esbonio y dylai camau gael eu cymryd "yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy" sy'n cael ei ddiffinio yn adran 5 o Ddeddf LICD i olygu "gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau". Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effaith y mae penderfyniadau caffael yn ei chael y tu hwnt i hyd y contract, ac weithiau ffordd bell i'r dyfodol. Efallai y bydd yr effeithiau hyn yn anoddach i'w mesur ond maent yn bwysig.

³ [Guiding Principles on Business and Human Rights: Implementing the United Nations "Protect, Respect and Remedy" Framework | OHCHR](#)




11. Mae'r sector cyhoeddus yn gweithredu o fewn cylchoedd gwleidyddol a chyllidebol, a all ei gwneud hi'n anodd blaenoriaethu cynaliadwyedd hirdymor dros anghenion tymor byr. Fodd bynnag, mae hyn wrth wraidd Deddf LICD a thrwy hynny, y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol yn y Ddeddf PGChC. Felly, mae taro cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor yn bwysig ar gyfer pob caffaeliad.
12. Mae adran 24(7) yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn perthynas ag adran 5 yn Neddf LICD. Mae hon (adran 5(2)) yn cyflwyno pum ffordd o weithio, sy'n galluogi Awdurdodau Contractio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni'r nodau llesiant. Mae angen gweithredu'r pum ffordd o weithio wrth osod amcanion caffael a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny:
- I. Hirdymor "Pwysigrwydd cydbwyso anghenion y tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd."
 - II. Integreiddio "Ystyried ym mha ffordd y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill."
 - III. Cynnwys "Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu."
 - IV. Cydweithio "Cydweithio ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant."
 - V. Atal "Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion."

Gellir dod o hyd i ganllawiau statudol ar gyfer Deddf LICD ar y ddolen ganlynol - [SPSF 1: Canllaw Craidd](#)

13. Efallai y bydd rhai caffaeliadau yn benthyg eu hunain i weithredu rhai o'r ffyrdd hyn o weithio yn fwy nag eraill. Felly, er enghraifft, efallai na fydd yn ymarferol a chymesur cynnwys partïon â diddordeb yn uniongyrchol ym mhob caffaeliad bach. Fodd bynnag, rhaid eu hystyried i gyd ar y dechrau.

Y saith nod llesiant





14. Mae'r saith nod llesiant a'u disgrifiadau yn Adran 4 o Ddeddf LICD wedi'u cynllunio i sicrhau ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un canlyniadau, sef:

Cymru llewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

15. Mae'r ddogfen '[Deddf Llesiant cenedlaethau'r dyfodol: yr hanfodion](#)' yn darparu crynodeb defnyddiol o'r saith nod llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

16. Mae'r Ddeddf PGChC yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Contractio i gymryd camau sy'n "anelu at gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant", ac mae hyn yn berthnasol i'r holl waith caffael a'r holl nodau. Mae'r nodau i gyd yn gysylltiedig â'r Ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol, lle mae'n rhaid i Awdurdod Contractio **geisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol** ardal.

17. Pryd bynnag y mae ymarfer caffael cyhoeddus yn cael ei gynllunio, felly, rhaid ystyried sut y gall y contract helpu i gyflawni'r nodau, a/neu leihau'r risgiau o gael effaith negyddol. Ar gyfer caffaeliadau sy'n gysylltiedig â chontractau rhagnodedig (sef categorïau penodol o gaffael a chaffaeliadau mwy, gweler isod) bydd yn rhaid i Awdurdodau Contractio gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion caffael cymdeithasol gyfrifol.



18. Mae gwefan swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys cyngor i gyrff cyhoeddus, ac adnoddau, ar sut i wella llesiant Cymru. Yn ogystal â'r dogfennau a ddisgrifir uchod, mae hyn yn cynnwys Llwybrau⁴ a Gwirio Cynnydd Dull o Weithio⁵

Contractau Rhagnodedig

Ymadrodd	Ystyr
contract rhagnodedig (<i>"prescribed contract"</i>)	Deddf PGChC a.24(8) Yn y Rhan hon, ystyr "contract rhagnodedig" yw— (a) contract adeiladu mawr (gweler adran 25), (b) contract allanoli gwasanaethau (gweler adran 26), ac (c) unrhyw gontract cyhoeddus arall o ddisgrifiad a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

19. Mae'r diffiniad o "contract rhagnodedig" yn un ffordd y mae'r Ddeddf PGChC yn ymgorffori pwysigrwydd cymesuredd. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Contractio gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu Hamcanion Caffael Cymdeithasol Gyfrifol wrth gynnal caffaeliadau ar gyfer dyfarnu contract rhagnodedig. Mae tri chategori o gontractau rhagnodedig wedi'u rhestru yn adran 24(8):

	Ymadrodd	Ystyr
1	contract adeiladu mawr	Deddf PGChC a.25(2) Yn y Rhan hon, ystyr "contract adeiladu mawr" yw contract cyhoeddus sydd â gwerth amcangyfrifedig o £2,000,000 neu fwy. ⁶ Deddf PGChC a.25(3) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r adran hon drwy reoliadau i addasu ystyr contract adeiladu mawr.

⁴ Llwybrau <https://futuregenerations.wales/cym/gwneud/offer/llwybrau-i-helpu-i-ymgorfforir-nodau-llesiant/>

⁵ Gwirio cynnydd dull o weithio - <https://offerynow.cenedlaethaurdyfodol.cymru/login>

⁶ Deddf PGChC fel y'i diweddarwyd gan [Reoliadau Caffael \(Cymru\) 2024](#)



2	contract allanoli gwasanaethau	Deddf PGChC a.26(2) Yn y Rhan hon, ystyr “contract allanoli gwasanaethau” yw contract— (a) y mae gofyniad i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus sy’n cael ei ddarparu gan, neu a ddarparwyd yn flaenorol gan, Awdurdod Contractio yn cael ei drosglwyddo i berson arall, neu (b) y mae person arall yn cytuno i gyflawni unrhyw swyddogaeth arall sy’n cael ei gyflawni gan, neu a gyflawnwyd yn flaenorol gan, Awdurdod Contractio; ac mae “allanoli” i’w ddehongli yn unol â hynny.
3	unrhyw gontract cyhoeddus arall o ddisgrifiad a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.	Rheoliad 3.⁷—(1) At ddibenion adran 24(8) o <i>Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023</i> (“Deddf 2023”), mae contract rhagnodedig yn cynnwys unrhyw gontract o fath y cyfeirir ato ym mharagraff (2), oni bai bod paragraff (3) yn gymwys. (2) Y mathau o gontractau yw— (a) contract rhwng un neu ragor o weithredwyr economaidd ac un neu ragor o Awdurdodau Contractio, sydd â’r amcan o gyflawni gweithiau, cyflenwi cynhyrchion neu ddarparu gwasanaethau; (b) cytundeb fframwaith. (3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys os— (a) oes gan gontract amcangyfrif o werth sy’n llai na’r swm trothwy a nodir yn nhabl paragraff (1) o Atodlen 1 i DC 2023 ar gyfer y math hwnnw o gontract, neu (b) yw contract yn gontract esempt o fewn ystyr Atodlen 2 i DC 2023. Mae'r ddarpariaeth hon yn ymddangos yn <i>Rheoliadau Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (Caffael Cyhoeddus Gymdeithasol Gyfrifol) 2025 drafft</i> (“y Rheoliadau drafft”).

⁷ Fel y’i diffinnir yn [Rheoliadau Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\) 2026](#) drafft



Ymgorffori cymesuredd

20. Er bod yn rhaid i Awdurdod Contractio geisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal, mae'n bwysig ei fod yn cael ei wneud mewn ffordd resymol a chymesur.
21. Wrth asesu cymesuredd dylid ystyried cost fel ffactor, fodd bynnag, dylid ystyried y risgiau a'r cyfleoedd, a natur contract hefyd. Dylid ystyried ffactorau tymor hwy hefyd. Er enghraifft, gallai contract nwyddau neu waith llai gynnwys risgiau amgylcheddol uwch na chontract gwasanaethau mwy.
22. Felly, mae cymesuredd yn cwmpasu:
- Y lefel o gymhlethdod yn y ffordd rydyn ni'n disgrifio'r hyn rydyn ni'n ei geisio, h.y. y fanyleb.
 - Y cymhlethdod yn y broses gaffael a'r llwyth gwaith sy'n deillio o hynny ar gyfer Awdurdodau Contractio a chynigwyr.
 - Y diwydrwydd dyladwy disgwylidig wrth reoli contractau ar gyfer Awdurdodau Contractio, cyflenwyr, ac aelodau o gadwyni cyflenwi.
23. Dylai'r rhai sy'n cynllunio caffaeliad gwerth isel ystyried a yw'r costau gweinyddol tebygol o fynd ar drywydd gwelliant llesiant penodol yn rhy uchel. Mae peidio ag ystyried hyn yn creu perygl o osod beichiau anghymesur ar gyflenwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig a sefydliadau trydydd sector, ac ar adnoddau rheoli contractau mewn Awdurdodau Contractio. Gall hefyd leihau cystadleuaeth yn sylweddol. Gall fod yn fwy cymesur gweithio gyda chyflenwyr llai i fynd i'r afael â risgiau a chyfleoedd llesiant pan fyddant wedi sicrhau contract.
24. Gall cymesuredd fod yn arbennig o bwysig wrth gontractio â sefydliadau'r trydydd sector. Maent yn aml yn fach a gallant sgorio'n is na sefydliadau mwy o faint os yw eu henghreiffiau gorau o gyflawni canlyniadau llesiant yn ymwneud â gwasanaethau i'r Awdurdod Contractio sydd hefyd yn rhedeg y caffael, ac mae cwestiynau tendro yn eu hatal rhag defnyddio'r gwasanaethau hyn fel enghreifftiau. Gallai meddwl am senario o'r fath ymlaen llaw ei gwneud yn bosibl drafftio cwestiynau mewn ffordd ddigon hyblyg.
25. Ar gyfer caffael nad yw'n "gontract rhagnodedig" efallai y bydd yn briodol trafod gyda chydweithwyr a/neu randdeiliaid ynghylch pa un o'r risgiau a'r cyfleoedd llesiant sy'n ymwneud fwyaf â'r caffael.
26. Er enghraifft, gallai fod yn ddefnyddiol nodi tri risg i lesiant y gellid mynd i'r afael â nhw, a thri chyfle i wella llesiant y gellid eu cymryd. Bydd cofnodi'r rhain yn helpu i



sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn ystod y gwaith caffael ac wrth reoli'r contract. Ar gyfer caffaeliadau mwy a chaffaeliadau mwy cymhleth dylai fod disgwyliadau mwy uchelgeisiol.

27. Ar gyfer contractau rhagnodedig, mae adran 24(6)(a) yn nodi na ddylid cynnwys darpariaethau nad ydynt yn gymesur gan ystyried gwerth amcangyfrifol y contract.

Osgoi Gwrthdaro â Chyfraith Caffael arall

28. Mae adran 24(6)(b) yn ei gwneud yn ofynnol na ellir cynnwys unrhyw ddarpariaethau mewn contract rhagnodedig a fyddai'n gwrthdaro ag "unrhyw ddeddfiad arall neu unrhyw reol gyfreithiol sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus". Dylai Awdurdodau Contractio sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r holl gyfraith berthnasol arall, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) [Ddeddf Caffael 2023](#) a [Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd \(Cymru\) 2024](#).

Canlyniadau

29. Mae'r canlynol yn rhestr anghynhwysfawr o ganlyniadau llesiant y gellid dilyn eu trywydd trwy gaffael. Gall y rhestr hon ddarparu canllaw defnyddiol pan fydd Awdurdodau Contractio yn ystyried y risgiau llesiant a chyfleoedd gwella ar gyfer pob contract.

Economaidd

- Cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig, mentrau cymdeithasol a chyflenwyr yn yr economi sylfaenol
- Manteision mesuradwy i economïau lleol
- Ffocws ar sgiliau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys yr economi werdd
- Cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a dilyniant o ran gwaith
- Gwell cyflog, gan gynnwys mwy o bobl sy'n cael eu talu uwchlaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol

Amgylcheddol

- Llai o allyriadau carbon, gan gynnwys allyriadau Cwmpas 3⁸ (gan gynnwys allyriadau defnydd tramor), a chynnydd tuag at ymrwymïadau sero net
- Lleihau gwastraff, ailddefnyddio, trwsio a hybu economi gylchol
- Nwyddau a gwasanaethau cynaliadwy a moesegol, gan gynnwys llai o risg o ddatgoedwigo a throi cynefinoedd trwy ardystio moesegol, dyledus

⁸ [Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero Net](#)



ddiwydrwydd a chadwyni cyflenwi tryloyw, llai o ôl troed tir, a mynd i'r afae; â cham-drin hawliau dynol cysylltiedig mewn cadwyni cyflenwi

- Diogelu a gwella bioamrywiaeth a natur
- Mesurau diogelu'r amgylchedd byd-eang a llai o ôl troed byd-eang⁹
- Llai o lygredd, gan gynnwys llygredd sain a golau
- Y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd a gwydnwch y gadwyn gyflenwi

Cymdeithasol

- Mwy o bobl yn cael eu talu uwchlaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol
- Mwy o lais gweithwyr, cynrychiolaeth undebau llafur a bargeinio ar y cyd
- Sicrwydd a hyblygrwydd swyddi
- Mynd i'r afael â chaethwasiaeth a diogelu hawliau dynol mewn cadwyni cyflenwi byd-eang, fel y nodir yn *Egwyddorion Arweiniol y Cenhedloedd Unedig ar Fusnes a Hawliau Dynol*.¹⁰
- Arferion recriwtio a chyflogaeth sy'n sicrhau mwy o amrywiaeth a chyfleoedd cyfartal i bobl â nodweddion gwarchodedig ac yn lleihau bylchau cyflog
- Hawliau yn y gweithle yn cael eu deall yn ehangach ac yn cael eu diogelu
- Diogelu a gwella iechyd corfforol
- Diogelu a gwella iechyd meddwl
- Diogelu darpariaeth pensiynau
- Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb
- Mwy o gydraddoldeb digidol
- Diogelu hawliau data, preifatrwydd a diogelwch ar-lein

Diwylliannol

- Mentrau sy'n creu cymunedau trefol a gwledig ffyniannus
- Diogelu a gwella asedau a chyfleusterau diwylliannol
- Hybu sector y celfyddydau
- Hyrwyddo chwaraeon
- Diogelu a gwella safleoedd hanesyddol a threftadaeth
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a chyfleoedd i ddysgu a gloywi Cymraeg.
- Mwy o dystiolaeth o ymgysylltu â dinasyddion

⁹ Gosodwyd carreg filltir genedlaethol sy'n ymwneud â'r dangosydd cenedlaethol hwn ym mis Rhagfyr 2022: "Dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r byd y bydd Cymru yn ei defnyddio erbyn 2050". Mae Ôl Troed Byd-eang yn amcangyfrif o'r arwynebedd tir sy'n ofynnol i gefnogi defnydd gan wlad ar raddfa fyd-eang.

¹⁰ Dylid ystyried Egwyddorion Arweiniol y Cenhedloedd Unedig yn elfen graidd, ac nid dewisol, o gaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol. Dylid defnyddio egwyddor cymesuredde wrth ystyried yr egwyddorion hyn, gan gynnwys asesu'r risgiau i hawliau dynol yn y contract a'r cadwyni cyflenwi.



Caffael Cymdeithasol Gyfrifol trwy gydol prosesau Caffael

30. Mae'r adran hon yn darparu enghreifftiau sy'n dangos sut y gellir ymdrin â chaffael cymdeithasol gyfrifol ar gamau penodol o'r ymarfer caffael.

CYNLLUNIO

31. "Cynllunio" yw'r cam pwysicaf ar gyfer sicrhau canlyniadau cymdeithasol gyfrifol i gaffael. Ar gyfer caffaeliad llai, gellir cyfuno "Cynllunio" a "Diffinio" mewn un cam, ond pan fo'n bosibl mae'n ddefnyddiol ateb rhai cwestiynau lefel uchel cyn symud ymlaen i ddiffinio'ch gofynion yn fanwl.
32. Mae cwestiynau i'w gofyn yn y cam "Cynllunio" yn cynnwys a oes angen y caffael o gwbl. A oes rhywbeth eisoes y gellir ei addasu i fodloni'r gofyniad newydd, neu ffordd arall o ddiwallu'r anghenion gydag adnoddau presennol? Gellid mynd i'r afael â nifer o'r nodau llesiant trwy arbed yr amser, y costau a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer caffaeliad newydd.
33. Mae'r amser a gymerir i feddwl trwy'r holl risgiau a'r manteision llesiant posibl ar ddechrau caffaeliad bob amser yn werth chweil. Yn dibynnu ar faint a chymhlethdod y caffaeliad, gall fod yn ddefnyddiol trefnu cyfarfodydd gyda phobl sy'n gysylltiedig â'r cynnyrch neu'r gwasanaethau, gan gynnwys defnyddwyr terfynol.
34. Ar gyfer llawer o gaffaeliadau efallai y bydd yn ddefnyddiol ar y cam hwn i gwrdd â chydweithwyr sy'n gweithio mewn meysydd fel cydraddoldeb ac amrywiaeth, y Gymraeg, rheoli carbon a gwastraff, sgiliau, ymgysylltu â'r gymuned ac ati.
35. Yn aml, mae'n ddefnyddiol cwrdd â darpar gyflenwyr ar y cam hwn hefyd, neu efallai y byddai'n fwy priodol gwneud hyn yn y cam "Diffinio". Gall ymgysylltu ymlaen llaw â'r farchnad helpu i nodi ffyrdd newydd o wneud pethau a chaniatáu amser ychwanegol i gynigwyr posibl baratoi atebion arloesol a chost-effeithiol.

DIFFINIO

36. "Diffinio" yw'r ail gam pwysicaf ar gyfer adeiladu canlyniadau sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, am ddau brif reswm:
- Mae cynigwyr hefyd yn fwy tebygol o allu nodi atebion cost-effeithiol o gyflawni canlyniadau llesiant a rheoli risgiau ar y dechrau pan fyddant yn paratoi eu ceisiadau. Byddant yn ceisio bod yn arloesol i gyflwyno cynnig



cystadleuol. Bydd sut rydych chi'n diffinio eich caffael yn cael yr effaith fwyaf ar y ffordd y mae cynigwyr yn paratoi ceisiadau.

- ii. Unwaith y bydd contractau wedi'u llofnodi, mae unrhyw ganlyniadau llesiant rydych chi'n ceisio eu hól-osod yn debygol o gostio mwy ac yn llai integredig i'r cynnyrch neu'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

Mae'r enghraifft ffuglennol yn Atodiad 1 yn dangos canlyniadau llesiant yn cael eu cynnwys yn y cam "Diffinio" o gaffael gwasanaethau arlwyio mewn swyddfeydd staff.

37. Ar ôl i chi nodi'r ystyriaethau a'r gofynion a datblygu eich manyleb, byddwch hefyd yn dylunio eich proses, yn gosod meini prawf dyfarnu, cwestiynau gwerthuso a methodoleg sgorio. Bydd y rhain, ynghyd â dogfennau tendr eraill, wedyn yn rhan o'ch pecyn dogfennau tendr llawn.

38. Y peth hanfodol ar y pwynt hwn yw sicrhau bod y syniadau da a geir yn eich gwaith ar y fanyleb yn cael eu hymgorffori yn y cwestiynau a'r meini prawf dyfarnu ac yn cael y pwysoliad cywir. Mae angen iddynt hefyd gael eu hymgorffori yn y contract a'r dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt.

39. Ni argymhellir gosod canran sefydlog o'ch meini prawf dyfarnu i lesiant cymdeithasol, amgylcheddol, ecinomaidd a diwylliannol ar gyfer pob caffaeliad. Mae angen i bob prosiect gael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun. Gweler hefyd [Nodyn Polisi Caffael Cymru \(NPCC\) 003: Cymalau gwerth cymdeithasol / buddion cymunedol drwy gaffael cyhoeddus.](#)

40. Ar gyfer rhai caffaeliadau lle cytunir ar gyllidebau a'u gosod ymlaen llaw, efallai na fydd angen i gynigwyr gystadlu ar bris o gwbl. Yn lle hynny, gallant gystadlu ar faint ac ansawdd yr hyn y gallant ei gyflawni am y pris a bennir.

41. Mae enghreifftiau ffuglennol yn **Atodiad 2** yn dangos sut y gall meddwl yn ofalus am feini prawf dyfarnu a phwysoli wneud gwahaniaeth i sicrhau bod Amcanion CCG yn cael eu cyflawni trwy gydol oes y contract.

CAFFAEL

42. Y cam "Caffael" yw'r un lle nad oes bron unrhyw bosibilrwydd i ddylanwadu ar ganlyniadau llesiant. Os nad yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y cwestiynau a'u pwysoli'n briodol, nid yw'n bosibl newid hyn yn ystod y caffaeliad.



43. Yr unig ystyriaeth ar y cam hwn yw a oes gennych y bobl orau ar eich panel gwerthuso tendr. Ystyriwch gynnwys rhywun sydd â gwybodaeth am y canlyniadau llesiant a geisir. Bydd angen i chi allu gwahaniaethu rhwng cais a allai fod wedi'i baratoi gyda chymorth deallusrwydd artiffisial (AI), ac un sy'n dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad clir i'r canlyniadau hyn.

RHEOLI

44. Mae llwyddiant neu fethiant wrth gyflawni canlyniadau llesiant yn aml yn deillio'n bennaf o ansawdd rheoli contractau. Hyd yn oed os ydych wedi dilyn camau "Cynllunio", "Diffinio" a "Caffael" rhagorol oni bai eich bod yn parhau i ganolbwyntio ar lesiant trwy gydol oes y contract, mae'n debygol y bydd corneli yn cael eu torri i arbed arian a bydd cyfleoedd yn cael eu colli.
45. Mae'r enghraifft ffuglennol yn **Atodiad 3** yn dangos pwysigrwydd cynnwys asesiad parhaus o'r effaith ar ddefnyddwyr terfynol yn y trefniadau rheoli contractau.
46. Weithiau gall costau a phethau ymarferol o ran cyflawni canlyniadau llesiant fod yn anoddach i'w rhag-weld nag elfennau eraill o gyflawni prosiectau. Gall deialog barhaus gyda'ch cyflenwr helpu i rag-weld unrhyw broblemau a'ch galluogi i weithio gyda'ch cyflenwr i ddod o hyd i atebion.
47. Yn yr un modd, os bydd pwysau cost annisgwyl eraill yn codi yn ystod contract, gall fod yn haws i gyflenwr dorri corneli ar ei rwymedigaethau llesiant i barhau i gyflawni'r prosiect o fewn y gost y cytunwyd arno. Mae'n bwysig sicrhau bod eich dangosyddion perfformiad allweddol ac unrhyw fecanweithiau cymhelliant eraill hefyd yn ymgorffori'r canlyniadau llesiant y cytunwyd arnynt yn briodol.
48. Mae pob caffaeliad yn gyfle i ddysgu o'r hyn a aeth yn dda a'r hyn a oedd yn anodd. Gall cofnodi'r hyn a gyflawnwyd mewn astudiaeth achos fer ganiatáu i arferion da ac arloesol gael eu rhannu ac i eraill ddysgu ohonynt.



Atodiad 1 – Enghraifft – Gwasanaethau Arlwy – CAM DIFFINIO

Yn yr enghraifft hon mae'r Awdurdod Contractio eisoes wedi gosod rhai Amcanion CCG, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys mewn llythrennau italig yn y drydedd golofn. Sylwer mai enghreifftiau posibl o Amcanion CCG yw'r rhain.

Mae'r tabl hwn yn cwmpasu cyrchu'r bwyd ac nid y gwasanaeth ehangach, lle bydd angen ystyried nodau llesiant eraill fel cydraddoldeb, gwaith teg, lleihau gwastraff a lleihau carbon hefyd wrth gynllunio.

Contract Gwasanaethau Arlwy – cyrchu bwyd		
Y Cefndir	Mae Awdurdod Contractio angen gwasanaethau arlwy i'w staff yn eu lleoliadau swyddfeydd mewnol.	
Ystyriaethau	Cyfrifoldeb byd-eang, cyrchu lleol, iechyd a llesiant, lleihau carbon, y Gymraeg a diwylliant.	
Categoriâu o fwyd	Ystyriaethau Contract	Amcanion Caffael Cymdeithasol Gyfrifol a Nodau Llesiant
(1) Bwyd o ffynonellau byd-eang	- Rhaid i goffi a choco gael eu cyrchu/caffael o dramor. - Dylai manylebau'r contract gynnwys y gadwyn gyflenwi dan sylw ac ystyriaethau moesegol, megis dim llafur gorfodol na llafur plant, arferion Masnach Deg a hawliau dynol yn cael eu parchu. - Dylai manylebau contract gynnwys yr effaith ar gostau cyflenwi, yr ôl troed carbon a'r effaith ar ddatgoedwigo wrth dyfu a chludo nwyddau. - Byddai nodi bod yn rhaid i unrhyw olew palmwydd mewn cynhyrchion fod wedi'i ardystio'n ffisegol gan safon	Amcan Caffael Cymdeithasol Gyfrifol <i>Cynyddu ymwybyddiaeth o ystyriaethau moesegol wrth gyrchu yn fyd-eang.</i> Nod Llesiant DLICD 2015 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Piler Llesiant Cymdeithasol Amgylcheddol



	RSPO (sef 'Roundtable on Sustainable Palm Oil') yn lleihau datgoedwigo. Neu unrhyw achrediad perthnasol y byddai ei angen.	
(2) Bwyd lleol a chynaliadwyedd	- Gallai gwahanu'r gofyniad yn lotiau (adran 18 o Ddeddf Caffael 2023) annog mwy o fusnesau bach a chanolig lleol i gyflwyno tendrau. Byddai'r dull hwn hefyd yn cyflawni'r rhwymedigaethau o dan adran 12(4) o Ddeddf Caffael 2023 ar roi sylw i rwystrau sy'n wynebu busnesau bach a chanolig. - Gallai manylebau'r contract gynnwys eitemau bwyd o Gymru ar fwydlen a deunyddiau pecynnu dwyieithog. - Gallai ardystiadau, fel cig a llaeth organig ac o borfa, a physgod a bwyd môr MSC/ASC ardystiedig, gael eu gwneud yn ofynion gorfodol, a allai arwain at gael gafael ar fwy o fwyd o ffynonellau lleol a bydd yn sicrhau bod yr allanoli'n foesegol ac yn gynaliadwy. - Byddai nodi mwy o lysiau tymhorol yn annog cyflenwad lleol.	Amcan Caffael Cymdeithasol Gyfrifol <i>Annog busnesau bach a chanolig (gan gynnwys busnesau bach a chanolig lleol yng Nghymru) i wneud cais am brosiectau a</i> <i>Chynyddu ymwybyddiaeth a mynediad at ddiwylliant/treftadaeth Cymru.</i> Nod Llesiant DLICD 2015 Cymru lewyrchus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Piler Llesiant Economaid Diwylliannol



ATODIAD 2 – ENGHREIFFTIAU – CAM DIFFINIO

Enghraifft 1: Contract ar gyfer prosiect ymgysylltu â'r gymuned

Y gofyniad:

Mae'r Awdurdod Contractio yn chwilio am gyflenwr i weithio mewn cymuned drefol i nodi rhwystrau i gymryd rhan mewn materion dinesig, ac ysgogi gwelliannau. Mae cyllideb benodol wedi'i dyrannu i'r swydd hon. Mae'r gymuned yn cynnwys amrywiaeth ddiwylliannol eang a theuluoedd sy'n byw mewn tldi.

Prif nodau llesiant yr ymdrinnir â hwy:

Cymru o gymunedau cydlynus
Cymru sy'n fwy cyfartal
Cymru iachach
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Y meini prawf dyfarnu:

- Gan fod y gyllideb yn sefydlog, mae'r Awdurdod Contractio yn penderfynu peidio â chynnwys pris fel maen prawf dyfarnu ond mae'n gofyn yn hytrach am ddadansoddiad o nifer yr oriau y byddai unigolion ar lefelau gwahanol yn ymwneud â'r prosiect.
- Gofynnir i'r cynigwyr hefyd esbonio'n fanwl sut y byddant yn ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd, gan gynnwys eu cynlluniau ar gyfer hygyrchedd i bobl anabl, pobl mewn grwpiau oedran gwahanol, a'r rhai sy'n profi rhwystrau iaith.
- Mae set arall o gwestiynau yn gofyn am gynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â'r prosiect, adrodd ar gyfnodau gwahanol a mesur llwyddiant.
- Ystyrir y pwysoli, a phenderfynir y dylai traean o'r marciau fynd i bob un o'r grwpiau hyn o gwestiynau.



Enghraifft 2: Gwaith tirlunio y tu allan i adeilad cyhoeddus

Y gofyniad:

Mae'r Awdurdod Contractio yn chwilio am gyflenwr i ail-ddylunio'r ardal o amgylch adeilad, newid y trefniadau parcio ceir a gwella bioamrywiaeth yn yr ardal. Mae ei fanyleb yn cynnwys ystyried y canlynol:

- Y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd
- Draenio dŵr a lleihau'r risg o lifogydd
- Parcio gwell, gan gynnwys ar gyfer e-gerbydau a deiliaid bathodynau glas
- Annog beicio
- Gwaith plannu i annog pryfed
- Goleuadau i leihau tarfu ar adar a phryfed ac ati

Yn ogystal â'r manylion dylunio hyn, mae'r awdurdod yn gofyn am waith teg, deunyddiau – ailddefnyddio, cyrchu deunyddiau cynaliadwy a moesegol, lleihau carbon, cyfleoedd i weithwyr lleol a manteision cymunedol.

Prif nodau llesiant yr ymdrinnir â hwy:

Cymru gydnerth
Cymru iachach
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Y meini prawf dyfarnu:

- Pris fydd un o'r meini prawf dyfarnu yn y contract hwn. Mae dadansoddiad sensitifrwydd yn cael ei gwblhau ar y model sgorio a'r pwysoli.
- Ystyrir y pwysoli, a phenderfynir y dylai traean o'r marciau fynd i'r pris, traean i'r grŵp o gwestiynau ar y gofyniad a thraean i ofynion cynaliadwyedd a llesiant ehangach.



ATODIAD 3 – Enghraifft – CAM RHEOLI

Enghraifft 3: Amserlenni a gwybodaeth am wasanaethau bysiau, gan ddefnyddio technoleg AI

Y gofyniad:

Mae'r Awdurdod Contractio yn chwilio am ateb technegol i wella ei amserlenni bysiau, llwybrau a rheoli gwybodaeth. Bydd y dechnoleg yn cynnwys Deallusrwydd Artiffisial wrth ddylunio a rheoli'r gwasanaeth.

Mae'r camau "Cynllunio" a "Diffinio" yn nodi pwysigrwydd diwallu anghenion y bobl dan sylw, fel gyrwyr a theithwyr. Ar gyfer gyrwyr roedd hyn yn cynnwys seibiant, lluniaeth a chyfleusterau toiled. Ar gyfer teithwyr, roedd angen cynnwys anghenion teithwyr anabl yn arbennig, a data daearyddol, demograffig ac amseru, er enghraifft ar agosrwydd at ysgolion, yn ogystal ag effaith cau ffyrdd. Roedd cyfathrebu a rheoli gwybodaeth yn ffocws arbennig ac roedd gofynion y Gymraeg hefyd wedi'u cynnwys.

Mae'r gwaith caffael wedi'i gwblhau ac mae'r sylw wedi troi at reoli'r contract.

Prif nodau llesiant yr ymdrinnir â hwy:

Cymru gydnherth
Cymru iachach
Cymru sy'n fwy cyfartal
Cymru lewyrchus
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Gweithgareddau rheoli contractau:

Yn ogystal â chasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol yn rheolaidd, roedd yr awdurdod o'r farn bod angen iddo gasglu a dadansoddi adborth ar ei wasanaeth, gan yrwyr a theithwyr. Casglwyd a dadansoddwyd cwynion. Dyluniwyd arolwg trwy ddychwelyd i'r fanyleb wreiddiol i nodi:

- boddhad cyffredinol â'r gwasanaeth
- a oedd anghenion penodol grwpiau lleiafrifol yn cael eu diwallu
- ansawdd y deunyddiau cyfathrebu
- pa mor dda roedd mecanweithiau adborth yn gwella gwasanaethau i deithwyr a gyrwyr.

